

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a 1963 Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

Ffurflen Gais Amlinellol Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant (Cymru) ar gyfer plant [sy'n byw/cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgarwch] o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili]

Noder: Dylid cwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon i'r awdurdod trwyddedu, a hynny heb fod yn llai nac 21 diwrnod cyn y perfformiad neu weithgarwch cyntaf y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer, oherwydd gallai'r awdurdod trwyddedu wrthod caniatáu trwydded. Gellir gwrthod trwydded os derbynnir y cais llai nac un ar hugain diwrnod cyn y dyddiad y mae'r drwydded yn ofynnol ar ei gyfer. Mae'n annhebygol iawn y caniateir trwydded os derbynnir y cais lai na phum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae'r drwydded yn ofynnol ar ei gyfer.

Mae cyfeiriadau at "y Rheoliadau" yn golygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Rhan A: Gwybodaeth i'w darparu gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â'r plentyn

Gweler rheoliad 4 a Rhan 1 Atodlen 2 y Rheoliadau.

Bydd angen i'r ymgeisydd gasglu'r wybodaeth hon fel arfer gan riant y plentyn ac mae angen i riant y plentyn lofnodi'r ffurflen wedi'i chwblhau, ond dylai'r ffurflen gael ei chyflwyno gan yr ymgeisydd oni bai bod y rhiant hefyd yn gyfrifol am drefnu'r perfformiad neu weithgarwch.

A1) Enw'r plentyn:	
A2) Cyfeiriad cartref y plentyn:	
A3) Dyddiad geni'r plentyn:	
A4) Enw a chyfeiriad yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn awr: NEU Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, enw a chyfeiriad athro preifat/athrawes breifat y plentyn:	

**Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15**

<p>A5) Manylion pob trwydded a roddwyd ar gyfer y plentyn yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais, gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr, neu unrhyw awdurdod addysg yn yr Alban, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y cyflwynir y cais hwn iddo¹, gan ddatgan -</p> <p>a) Enw'r awdurdod;</p>	
<p>b) Y dyddiad y rhoddwyd y drwydded;</p>	
<p>c) Dyddiadau a natur y perfformiadau neu weithgareddau:</p>	
<p>A6) Manylion pob cais mewn cysylltiad â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod arall yn y 12 mis diwethaf, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y cyflwynir y cais hwn iddo, gan ddatgan -</p> <p>a) Enw'r awdurdod lleol neu awdurdod addysg;</p>	
<p>b) Y rhesymau (os ydynt yn hysbys) pam y gwrthodwyd trwydded:</p>	
<p>A7) Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd angen trwydded ar eu cyfer² yn y 12 mis diwethaf y bu'r plentyn yn cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys cynyrchiadau a oedd wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael trwydded; gan ddatgan:</p> <p>a) Dyddiad y perfformiad(au);</p>	
<p>b) Nifer y dyddiau perfformio;</p>	
<p>c) Teitl y perfformiad(au);</p>	
<p>d) Enw a chyfeiriad y person(au) sy'n gyfrifol am y cynhyrchiad(cynyrchiadau):</p>	

¹ Bydd hyn ond yn berthnasol os yw'r plentyn wedi symud rhwng awdurdodau yn y 12 mis diwethaf.

² Adran 37(3) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963: mae hyn yn cynnwys perfformiadau a drefnwyd gan ysgolion, lle rhoddwyd caniatâd corff o bersonau, a phan fydd y plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod yn y chwe mis cyn y perfformiad perthnasol.

**Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15**

<p>A8) Dyddiadau, os o gwbl, pan fu'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn y deuddeg mis cyn dyddiad y cais oherwydd eu bod wedi cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgarwch, gan gynnwys y rhai yr ydym wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael trwydded:</p>	
<p>A9) Swm unrhyw arian y mae'r plentyn wedi'i ennill yn y deuddeg mis diwethaf, gan ddatgan a oedd yr arian a enillwyd yn ymwneud â pherfformiad neu weithgareddau y rhoddwyd trwydded ar eu cyfer neu berfformiad nad oes angen trwydded ar eu cyfer:</p>	

Rhan B: Gwybodaeth i'w darparu gan yr ymgeisydd am y perfformiad neu weithgareddau

Gweler Rhan 2 Atodlen 2 y Rheoliadau.

Yr **Ymgeisydd** yw'r person sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgarwch neu berfformiad, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu cyflawni.

Mae'n arfer gorau i bob sefydliad sy'n gysylltiedig â phlant mewn perfformiadau, modelu â thâl neu chwaraeon â thâl feddu ar neu ddatblygu polisi amddiffyn plant, a'u bod yn ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd a sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd ag ef.

Teitl:	
Enw:	
Teitl Swydd:	
Sefydliad:	
Cyfeiriad:	
Ffôn:	Symudol:
E-bost:	

B1) A oes gan eich sefydliad bolisi amddiffyn neu ddiogelu plant? Pryd oedd y tro diwethaf iddo gael ei ddiweddarau? Nodwch ddolen neu atodwch gopi.	
--	--

B2) Ydych chi wedi cwblhau asesiad risg? Os ydych chi, dylech ei atodi i'r cais hwn. Os nad ydych chi, esboniwch sut y byddwch yn nodi ac yn lliniaru risgiau i'r plentyn trwy gydol cyfnod y drwydded y gwneir cais amdani yn y cais hwn.	
--	--

**Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15**

B3) Enw a natur ³ y perfformiad neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r drwydded y gwneir cais amdani:	
Darparwch ddisgrifiad mor gyflawn â phosibl o'r hyn y bydd yn ofynnol i'r plentyn ei wneud. Dylech gynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd y gofynnir iddynt fod ynddo ac unrhyw wybodaeth gyd-destunol arall a allai ein helpu i asesu'r risgiau corfforol, emosiynol neu seicolegol posibl, i'r plentyn ⁴ .	
B4) Lleoliad gweithgareddau, perfformiadau ac ymarferion y gwneir cais am drwydded amdanynt, gan gynnwys unrhyw gyfnodau ar leoliad:	
B5) Dyddiadau ac amseroedd gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion y gwneir cais am drwydded amdanynt: Os nad yw'r dyddiadau'n hysbys ar yr adeg hon ⁵ , nodwch nifer y dyddiau a'r cyfnod y gwneir cais i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion.	
B6) Cyfanswm yr amser a ragwelir neu hyd y gweithgareddau neu berfformiadau (gan gynnwys unrhyw ymarferion) sy'n gysylltiedig â'r hyn y gwneir cais am drwydded amdanynt:	
B7) Amcangyfrif o hyd ymddangosiad y plentyn yn y perfformiad neu weithgarwch:	

³ Er enghraifft, gwaith theatr, sioe gerdd, dawnsio, ffilmio, chwaraeon, modelu.

⁴ Ni ddylai bod angen darparu sgrïpt – mae'r disgrifiad o'r gweithgarwch a'r cyd-destun yn bwysicach.

⁵ Efallai nad ydynt yn hysbys oherwydd ni ellir cadarnhau'r amserlen ffilmio ymlaen llaw, neu mae'r gweithgarwch yn ddibynnol ar y tywydd.

Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15

B8) Y swm o waith nos (os o gwbl) y ceisir cymeradwyaeth ar ei gyfer a nodwch: a) amcangyfrif o nifer y dyddiau ⁶ :	
b) amcangyfrif o hyd pob diwrnod:	
c) y rheswm pam fod yn rhaid i'r perfformiad fod ar ffurf gwaith nos:	

B9) a) Y symiau i'w hennill gan y plentyn sy'n cymryd rhan yn y perfformiad neu weithgarwch:	
b) Enw, cyfeiriad a disgrifiad ⁷ o'r person y telir y symiau iddynt (os nad y plentyn dan sylw):	

B10) Pan fydd angen trwydded mewn cysylltiad â pherfformiad, y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer. Ar gyfer pob ymarfer, nodwch a) y dyddiad;	
b) y lleoliad; ac	
c) amcangyfrif o'r amser a'r hyd:	

B11) Y dyddiau neu'r hanner dyddiau y gwneir cais am absenoldeb o'r ysgol ar eu cyfer er mwyn galluogi'r plentyn i gymryd rhan yn y perfformiad, ymarferion neu weithgarwch:	
Mae'n <u>rhaid</u> i chi atodi llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu, os nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol, gan athro preifat/athrawes breifat y plentyn, yn cytuno i absenoldeb y plentyn o'r ysgol neu addysg a datgan na fydd hyn yn cael effaith niweidiol ar addysg a llesiant y plentyn.	

⁶ At y dibenion hyn mae unrhyw berfformiad a gynhelir ar ôl hanner nos a chyn yr amser cynharaf a ganiateir yn cyfrif fel estyniad i'r diwrnod blaenorol. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn perfformio ar ddydd Mawrth ac yna'n perfformio ar ôl hanner nos, yn oriau gwaith cynnar dydd Mercher, mae hynny'n cyfrif fel un diwrno (dydd Mawrth).

⁷ Os yw'n unigol, beth yw eu perthynas â'r plentyn? Os yw'n gwmni neu'n sefydliad, beth yw eu perthynas â'r plentyn?

**Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15**

<p>B12) Trefniadau arfaethedig (os o gwbl ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer, gan nodi - a) Lle y darperir yr addysg, gan ysgol, enw a chyfeiriad yr ysgol:</p>	
<p>b) Pan fydd addysg yn cael ei ddarparu ond nid mewn ysgol: i. enw, cyfeiriad a chymhwyster(cymwysterau) yr athro/athrawes arfaethedig;</p>	
<p>ii. y lleoliad lle addysgir y plentyn;</p>	
<p>iii. y cwrs astudio arfaethedig;</p>	
<p>iv. nifer y plant eraill i'w haddysgu yr un pryd gan yr un athro/athrawes, a rhyw ac oedran pob plentyn;</p>	
<p>v. swm yr addysg y bydd y plentyn yn ei dderbyn: yn unol â Rheoliad 15 (3) (d) Rheoliad Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015</p>	
<p>B13) Enw a chyfeiriad y gwarchodwr arfaethedig neu, os nad oes angen un, enw a chyfeiriad y rhiant neu'r athro/athrawes a fydd yn gyfrifol am ofalu am y plentyn:</p>	
<p>B14) Enw'r awdurdod lleol neu, yn yr Alban, yr awdurdod addysg sydd wedi cymeradwyo penodi gwarchodwr yn y gorffennol:</p>	
<p>B15) Nifer y plant a fydd yng ngofal y gwarchodwr yn ystod yr amser pan fydd y gwarchodwr yn gofalu am y plentyn, a rhyw ac oedran pob plentyn:</p>	
<p>B16) Cyfeiriad unrhyw leoliad lle bydd y plentyn yn byw, os yw'n wahanol i'r lle y bydd y plentyn yn byw'n arferol, nifer y plant eraill a fyddai'n byw yno a manylion y gwarcheidwad (os o gwbl) a fydd yn byw yn yr un lleoliad:</p>	

Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Model (W) – f 1.0 Hyd 15

<p>B17) Amcangyfrif o'r amser y bydd y plentyn yn ei dreulio yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y perfformiad, ymarferiad neu weithgarwch bob dydd, gan gynnwys:</p> <p>a) Y trefniadau (os o gwbl) i gludo'r plentyn i'r lleoliad hwnnw; a</p>	
<p>b) Y trefniadau (os o gwbl) i gludo'r plentyn o'r lleoliad hwnnw:</p>	

<p>B18) Enw unrhyw awdurdod lleol arall, neu, yn yr Alban, awdurdod addysg y gwnaed cais iddynt i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cais (os nad ydynt yn hysbys ar adeg cyflwyno'r cais, i'w darparu pan fyddant yn hysbys): (Bydd hyn yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol perthnasol i ddefnyddio dull cyson)</p>	
---	--

Llofnodion

Yr wyf yn ardystio, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y manylion yn y cais hwn yn gywir. Yr wyf felly'n gwneud cais am drwydded o dan adran 37 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963:

Llofnod yr ymgeisydd: (l'w lofnodi gan y person a enwir ar ddechrau Rhan B)	
Enw'r ymgeisydd:	
Dyddiad:	

Yr wyf yn ardystio, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y manylion yn y cais hwn yn gywir. Yr wyf yn cytuno i'm plentyn gymryd rhan yn y perfformiad neu weithgarwch a ddisgrifir uchod yn Rhan B:

Llofnod y rhiant: (l'w lofnodi gan y person â chyfrifoldeb rhiant ⁸ ar gyfer y plentyn a enwir ar ddechrau Rhan A)	
Enw'r rhiant:	
Dyddiad:	

Nodiadau ychwanegol:

- Derbynnir fersiynau electronig o'r ffurflen hon a dogfennaeth electronig, gan gynnwys llofnodion.
- Dylai'r ymgeisydd sicrhau y rhoddir copi i'r rhiant/gwarcheidwad a'r gwarchodwr o'r ffurflen gyflawn wedi'i chwblhau, y byddwch yn ei chyflwyno i'r awdurdod lleol.
- Mae unrhyw berson sy'n methu â chyflawni unrhyw amod sy'n rhan o roi trwydded neu sy'n gwneud unrhyw ddatganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn neu mewn cysylltiad â chais am drwydded, yn atebol i dderbyn dirwy nad yw'n fwy na £1000 (lefel 3 ar y raddfa safonol) neu gyfnod o garchar na fydd yn fwy na thri mis neu'r ddau (adran 40 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

⁸ Fel y'i diffinnir yn adran 3 Deddf Plant 1989, ystyr 'cyfrifoldeb rhiant' yw'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebu ac awdurdod sydd gan riant plentyn, yn ôl y gyfraith, mewn cysylltiad â'r plentyn a'i eiddo.

Datganiad meddygol i'w gwblhau a'i lofnodi gan riant plentyn

Enw'r plentyn		
A oes gan eich plentyn:		Os oes/ydy, darparwch fanylion, gan gynnwys unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth:
Asthma	Oes/Nac oes	
Unrhyw alergeddau	Oes/Nac oes	
Unrhyw gyflyrau croen	Oes/Nac oes	
Nam ar y clyw	Oes/Nac oes	
Nam gweledol	Oes/Nac oes	
Unrhyw anabledd dysgu	Oes/Nac oes	
Unrhyw anabledd corfforol	Oes/Nac oes	
Unrhyw gyflyrau meddygol	Oes/Nac oes	
A yw eich plentyn wedi bod yn cymryd unrhyw feddyginiaeth(au) rheolaidd?	Ydy/Nac ydy	
A yw eich plentyn wedi gweld, neu wedi cael ei atgyfeirio at feddyg ymgynghorol ysbyty yn y chwe mis diwethaf	Ydy/Nac ydy	

Yr wyf yn cadarnhau bod gennyf gyfrifoldeb rhiant ⁹ am y plentyn hwn.	Llofnod rhiant:
	Enw wedi'i brintio:
Cyfeiriad Post (os yw'n wahanol i un y plentyn)	
Cyfeiriad E-bost y Rhiant	
Rhif Ffôn y Rhiant	
Dyddiad:	

⁹ Fel y'i diffinnir yn adran 3 Deddf Plant 1989, ystyr 'cyfrifoldeb rhiant' yw'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebu ac awdurdod sydd gan riant plentyn, yn ôl y gyfraith, mewn cysylltiad â'r plentyn a'i eiddo.

Dogfennau Gofynnol

A wnewch chi gadarnhau eich bod wedi cynnwys y dogfennau canlynol¹⁰
gyda'r cais wedi'i lofnodi:

Dogfen	Cadarnhau
Copi o dystysgrif geni'r plentyn (mae copïau wedi'u sganio yn dderbyniol – ni ddylech anfon copïau papur gwreiddiol) ¹¹ : (<i>Cwestiynau A1 ac A3</i>)	
Dau ffotograff yr un fath o'r plentyn a dynnwyd yn y chwe mis cyn dyddiad y cais – printiau neu debygrwydd electronig (e.e. ffeil jpeg) ¹² :	
Copi o'r contract, contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau neu reoleiddio'r gweithgarwch y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer:	
Y polisi neu bolisiau amddiffyn plant y bydd yr ymgeisydd yn eu dilyn: (<i>Cwestiwn B1</i>)	
Yr asesiad risg (os yw wedi'i gwblhau) ar gyfer y perfformiad neu weithgarwch: (<i>Cwestiwn B2</i>)	
Llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn awr neu, os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, gan athro preifat/athrawes breifat y plentyn yn cytuno i absenoldeb y plentyn o'r ysgol neu addysg a datgan na fydd effaith niweidiol ar addysg a llesiant y plentyn: (<i>Cwestiwn B11</i>)	
Y datganiad meddygol a gwblhawyd ac a lofnodwyd gan riant y plentyn	

¹⁰ Rheoliad 4(1)(d) a Rhan 3 Atodlen 2 i'r Rheoliadau

¹¹ Yn yr amgylchiad eithriadol pan na ellir darparu dystysgrif geni'r plentyn fel rhan o'r cais (e.e. am nad oes ganddynt un) gallai'r awdurdod trwyddedu dderbyn tystiolaeth amgen.

¹² Ni ddylid addasu na gwella'r ddelwedd mewn unrhyw ffordd. Dylai fod yn lun o'r pen cyfan, wedi'i dynnu mewn golau da.

Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant

Datganiad Pennaeth

Dylai'r datganiad hwn gael ei gwblhau gan Bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd a'i gyflwyno gan yr ymgeisydd i'r awdurdod trwyddedu¹³, gyda **Ffurflen Gais Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant**.

Enw'r Plentyn	
Ysgol	
Enw'r Perfformiad neu Weithgarwch	
Natur y Perfformiad neu Weithgarwch ¹⁴	
Dyddiadau'r Gweithgarwch, Perfformiad neu Ymarferiad NEU Nifer y dyddiau a'r cyfnod y gallai'r plentyn fod yn cymryd rhan mewn Gweithgareddau, Perfformiadau neu Ymarferion, heb fod yn fwy na chwe mis ¹⁵	

Pwysig – Drwy gwblhau'r datganiad hwn, yr wyf i (Pennaeth y plentyn) yn cadarnhau (dileer fel y bo'n briodol):

1. **gall/ni all** y plentyn fod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau neu am y nifer o ddyddiau yn y cyfnod a nodwyd at y diben o gymryd rhan yn y gweithgarwch, perfformiad neu ymarfer a nodwyd

Ac:

2. **ni fydd/bydd** cymryd rhan yn y gweithgarwch, perfformiad neu ymarferiad a nodwyd yn cael effaith niweidiol ar addysg a lles y plentyn.

Llofnodwyd:.....

Enw wedi'i

brintio:.....

¹³ Ymgeisydd – y person sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgarwch neu am gynhyrchu'r perfformiad

¹⁴ Er enghraifft, gwaith theatr, ffilmio, chwaraeon, modelu, dawnsio

¹⁵ Mae'n RHAID derbyn caniatâd gan y pennaeth ar gyfer pob achlysur y bydd y plentyn yn absennol o'r ysgol

